Cylchlythyr Rhif 5, 2018/2019
Newsletter No 5
6.12.18

YSGOL GYMRAEG Ifor Hael
"Llwybr Llwyddiant"

Diolch! - Plant Mewn Angen *Children in Need*

Codoch chi **£223.55** anferth i Blant Mewn Angen – DIOLCH!

*You raised a massive **£223.55** for Children in Need – DIOLCH!*

Cyngerdd Nadolig / Christmas Concert

Bydd ein cyngerdd Nadolig eleni yn ddathliad o agoriad yr ysgol deng mlynedd yn ôl. Mae Mr Rhodri Harris wedi bod yn gweithio'n galed gyda'r holl ddosbarthiadau'r ysgol i greu un sioe i bawb ei fwynhau. Cynhelir dim ond un perfformiad ar y **18fed o Ragfyr** yng Nghanolfan Christchurch, am 6yh. Mynediad trwy docyn yn unig, wedi'i brynu ymlaen llaw, o swyddfa'r ysgol, £2 yr oedolyn.

*Our Christmas concert this year will be a celebration of the school being open for ten years. Mr Rhodri Harris has been working hard with all classes to create one show for all to enjoy. There will only be one performance and this will be held on the **18th of December** in the Christchurch Centre, starting at 6pm. Admission will be by ticket only, purchased in advance, from the school office at £2 per adult.*

Trefniadau'r Gyngerdd/ Concert Arrangements

1. Bydd angen i blant cyrraedd am 5.45yh er mwyn eu gosod yn eu llefydd ar y llwyfan.
2. Bydd angen anfon eu gwisgoedd i'r ysgol erbyn dydd Llun nesaf (10fed). Bydd y rhain yn cael eu hanfon gartre cyn y gyngerdd a dylai'r plant ddod i'r gyngerdd wedi gwisgo yn eu gwisgoedd.
3. Mi fydd lluniaeth ar gael ar ôl y gyngerdd er mwyn mwynhau cwmni ein gilydd!

i. *Children should arrive at Christchurch at 5.45pm in order for staff to place them on the stage.*
ii. *All costumes should be in school by next Monday (10th). These will be sent home before the concert and the children will then need to arrive in their costumes for the concert.*
iii. *There will be light refreshments at the end of the concert for us to mingle!*

Dathlu 10

Y mis diwethaf, fel rhan o'r 10 gweithgaredd i ddathlu'n pen-blwydd yn 10 oed, tynnodd pob disgybl a staff hunan-bortread o'u hunain. Mae pob un o'r wynebau wedi cael eu trosglwyddo i dywel te, dathliadol. Byddwn yn gwerthu'r rhain am £5. Bydd hwn yn anrheg Nadolig gwych i deulu neu ffrindiau.
Os hoffech archebu ymlaen llaw, anfonwch arian mewn amlen gydag enw'ch plentyn. Diolch

Last month, as part of our 10 activities to celebrate our 10th Anniversary, all pupils and staff drew a self-portrait of themselves. All faces have been transferred onto a celebratory, 10th anniversary tea towel. We will be selling these for £5. This will be a fantastic Christmas present for family or friends.
If you would like to pre-order, please send money in an envelope with your child's name. Diolch

Calendrau 2019 *Calendars*

Fel arfer, byddwn yn gwerthu calendr â ffotograff y dosbarth am £2 yr un. Unwaith eto, anfonwch arian i'r ysgol mewn amlen gydag enw / dosbarth eich plentyn ar y blaen. Diolch.

As usual, we will be selling photo calendars of each class at £2 each. Again, please send money to school in an envelope with your child's name/class on the front. Diolch.